

---

## OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

# 2019 No. 463

## Rheoliadau Materion Gwledig, yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Bwyd (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

### RHAN 2

Diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth

#### Rheoliadau Gwrteithiau'r CE (Cymru a Lloegr) 2006

2. Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Gwrteithiau'r CE (Cymru a Lloegr) 2006(1), yn y diffiniad o "the Community Regulation" ar ôl "fertilisers" mewnosoder "as last amended by Commission Regulation (EU) 2016/1618(2)".

#### Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008

3. Yn rheoliad 17(1)(c) o Reoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008(3), yn lle "erthyglau 3(2)(a) neu 3(2)(b) o Orchymyn Milfeddygaeth (Samplu Gwaed) 1983(4)" rhodder "erthyglau 5(2) a 5(3) o Orchymyn Milfeddygaeth (Esemtiadau) 2015(5)".

#### Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

4.—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(6) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 3, ym mharagraff (a)—

- (a) hepgorer is-baragraff (iii);
- (b) yn lle is-baragraff (iv) rhodder—

“(iv) cymhwysyo rheolau ar gynlluniau ansawdd sy'n darparu'r sail ar gyfer adnabod a gwarchod enwau a thermau sy'n dynodi neu'n disgrifio cynhyrchion amaethyddol ac iddynt nodweddion sy'n ychwanegu gwerth a nodir yn Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Tachwedd 2012 yng Nghymru cynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd(7).”.

---

(1) [O.S. 2006/2486](#).

(2) OJ Rhif L 242, 9.9.2016, t. 24.

(3) [O.S. 2008/1040 \(Cy. 110\)](#).

(4) [O.S. 1983/6](#).

(5) [O.S. 2015/772](#).

(6) [O.S. 2009/3376 \(Cy. 298\)](#), a ddiwygiwyd gan [O.S. 2018/806 \(Cy. 162\)](#).

(7) OJ Rhif L 343, 14.12.2012 t. 1, fel y'i cywirwyd gan gorladdu (OJ Rhif L 55, 27.2.2013, t. 27).